

Nodiadau Canllaw - Dewis Llwybr Newydd

Rhan II: Dewis Llwybr Newydd

Bwriad y rhan yma o'r canllaw yw helpu ymgeiswyr i hyrwyddo gwyrriad sy'n darparu'r llwybr amgen gorau posibl, a chais sydd felly'n fwy tebygol o gael ei gymeradwyo. Bwriedir hefyd i beidio ag annog ceisiadau sydd heb fawr o siawns na thebygolrwydd o lwyddo.

Cydnabyddwn fod angen ystyried anghenion a dyheadau defnyddwyr llwybr pan fo llwybr yn cael ei wro yn ogystal â rhai perchennog y tir a/neu reolwr. Byddwn yn ystyried y ddwy ochr a byddwn hefyd yn cofio am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy sy'n rhoi cyfarwyddyd ar sut yr ydym yn rheoli'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r cynllun yn ffrwyth gwaith ymchwil ac ymgynghori gyda thrigolion lleol, grwpiau defnyddwyr mynediad, ffermwyr a rheolwyr tir.

Cydnabyddwn fod gan y gwahanol ddefnyddwyr anghenion gwahanol ac ni fydd pawb sy'n defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy yn cytuno ar y nodweddion sy'n ei gwneud yn arbennig. Rydym wedi ymgynghori gyda nifer o bobl a mudiadau sydd â diddordebau gwahanol ac wedi ceisio dod â'r materion pryderus amlycaf i'r amlwg. Nid bwriad y canllaw yw gosod rheolau gan y bydd safon cyffredinol cais yn gyfuniad o wahanol ffactorau. Gallai'r rhain gynnwys

- ansawdd y llwybr presennol a'r llwybr arfaethedig newydd, o safbwynt arwyneb, graddiant, golygfeydd ac ansawdd a phrofiad y defnyddiwr,
- pwysigrwydd y llwybr yn y rhwydwaith,
- natur y tirwedd,
- anghenion lleol a chyfleoedd, a
- lefel a rhyddineb gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol.

Er enghraifft, mae'r hyn a argymhellwn o ran lled yn ganllaw yn unig, oherwydd nid yw darparu llwybr ar y lled a awgrymwn yn gwarantu y byddwn yn edrych ar y cais yn ffafriol, fwy na fod y ffaith fod rhywun ddim yn cydymffurfio yn golygu y bydd y cais o anghenraid yn methu. Awgrymwn y dylai llwybrau troed newydd fod o leiaf 2 fetr o led oherwydd bod y lled yma'n golygu ei fod yn rhwydd i'w ddefnyddio ac yn gwneud y llwybr yn fwy hygyrch i beiriannau torri. Er hynny, os oes rhesymau da ymarferol neu reolaeth tir pam y dylai'r lled fod yn llai gall y gwyrriad serch hynny fod yn dderbyniol. Rydym eisiau annog mynediad haws i'r cefn gwlad i bawb ac felly byddwn yn edrych yn fwy ffafriol ar lwybr newydd sydd heb giatiau neu gamfeydd yn hytrach na un sydd ddim mor hygyrch. Er hynny, rydym hefyd yn cydnabod fod rhesymau pam bod angen strwythurau efallai i reoli tir yn briodol, felly gall llwybr newydd sy'n cynnwys giatiau o'r fath neu strwythurau hefyd gael ei gymeradwyo. Dylid darllen ein canllaw gyda hyn mewn cof.

1. Hygyrchedd i ddefnyddwyr ac i ddibenion cynnal a chadw

Strwythurau

- Rydym yn hoffi llwybrau heb giatiau, camfeydd neu strwythurau eraill.
- Nid ydym yn hoffi llwybrau gyda strwythurau oni bai eu bod yn angenrheidiol i atal defnydd diawdurdod neu i reoli da byw. Os oes angen strwythur i atal defnydd diawdurdod ble fo'n bosib dylai fod bwlech yn cael ei adael yn yr ochr ar gyfer mynediad i gerddwyr (a ble fod angen i farchogion). Gall strwythurau sydd eu hangen i reoli da byw gael eu hawdurdodi o dan a. 147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Nid ydym yn hoffi camfeydd.

- Hoffem i chi drafod manyldeb unrhyw strwythur gyda ni cyn cyflwyno eich cais. Mae giatiau llwybr ceffyl angen bod â lleiafswm agoriad clir o 1.5 metr (5 troedfedd) a bod y glicied yn un hawdd i'w defnyddio. Carem weld giatiau Radar a giatiau symudedd canolig ble mae gwelliannau i hygyrchedd eu hangen neu yn ddymunol.
- Rydym yn hoffi i strwythurau ar lwybrau ceffyl fod ar gyffyrdd gyda ffyrdd ac wedi eu lleoli yn ddigon yn ôl o'r gyffordd gyda'r ffordd i ddarparu lle i farchogwyr aros yn ddiogel cyn croesi.

Lled

- Nid ydym yn hoffi i lwybrau newydd fod yn gulach na'r llwybrau maent yn cymryd eu lle.
- Hoffwn i lwybrau fod yn ddigon llydan i bobl eu defnyddio'n hawdd ac i gynnig mynediad i beiriannau os fydd angen torri'r arwyneb. Yn ddelfrydol, dylai'r lled fod yn lleiafswm o 2 fetr i lwybr troed a 3 metr i lwybr ceffyl ond yn gyffredinol y lletaf yw'r llwybr y gorau.
- Nid ydym yn hoffi gweld fod llwybrau wedi eu gwyro wedyn yn cael eu culhau gan ffensio neu wrychoedd, felly os yw llwybr i gael ei amgáu dylid cynnig o leiaf 0.5 metr (18 modfedd) o led ychwanegol.

2. Safon yr arwyneb

- Nid ydym yn hoffi i lwybrau newydd fod ag arwyneb sydd ddim mor gryf â'r hen arwyneb, neu sy'n costio mwy i'w cynnal a'u cadw. Mae draeniant y llwybr newydd yn fater pwysig i'w ystyried fel mae gallu'r llwybr i sychu ar ôl cyfnod o dywydd gwlyb. Efallai nad yw arwyneb llwybr newydd sbon ar draws tir agored mor gryf ag arwyneb llwybr sydd wedi ei gywasgu gan lawer o draed sydd wedi cerdded drosto dros y canrifoedd, felly, mae'n bosib y bydd angen gwaith draenio neu waith peirianyddol i'r llwybr cyn ei fod o safon debyg.
- Rydym yn hoffi llwybrau newydd sydd yn gryfach, yn gyson gyda'r cymeriad a'u sefyllfa. Byddwn yn cynghori ar y safon adeiladwaith gofynnol i lwybr newydd. Bydd hyn yn amrywio yn unol â'i leoliad a'i ddefnydd yn y dyfodol. Er enghraifft, os yw'r gwriad yn golygu fod y llwybr yn debygol o gael ei ddefnyddio yn fwy ar ôl y gwriad na chynt efallai y byddwn angen i'r llwybr newydd gael ei adeiladu i safon uwch na'r hen lwybr.
- Nid ydym yn hoffi i lwybrau newydd ddefnyddio manau mynediad preifat ble mae da byw yn hel neu ble gellir achosi niwed i'r arwyneb gan beiriannau fferm.
- Nid ydym yn hoffi llwybrau newydd sydd angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd ble nad yw hyn yn angenrheidiol ar weddill y llwybr. Ystyriwch ganiatáu i ddefaid barhau i bori yn ardal y llwybr newydd wrth gadw gwartheg a cheffylau allan.

3. Ansawdd y Profiad

- Rydym yn hoffi llwybrau sydd yn cynnig profiad tebyg neu well i'r defnyddiwr i'r hyn a gaed ar y llwybr blaenorol o ran cymeriad, golygfeydd, graddiant a hwylustod defnyddio.
- Nid ydym yn hoffi cynnydd sylweddol mewn hyd oni bai y gellir cyfiawnhau hyn pan fo yn cynnig gwell profiad neu well cyswllt i rwydwaith nad oedd mor hygyrch ar y rhwydwaith presennol.
- Nid ydym yn hoffi llwybrau sy'n mynd a'r defnyddiwr i ffwrdd o bwntiau o ddi-ddordeb, fel golygfeydd, nodweddion hanesyddol, neu ddŵr oni bai fod nodwedd gyfwerth ar gael ar y llwybr newydd.
- Rydym yn hoffi gwriadau sydd yn lleihau'r peryglon posibl i'r defnyddiwr, fel mynd a'r defnyddwyr i ffwrdd o ffordd brysur, neu i ffwrdd o dir a ddefnyddir gan beiriannau ac offer.
- Rydym yn hoffi llwybrau sy'n ddiogel i ddefnyddwyr fel y rhai gyda gwell llinellau gweld ar groesfannau ffordd.
- Rydym yn hoffi llwybrau sy'n cymryd y llwybr sy'n hawdd i'r defnyddwyr ei ddilyn heb ormod o arwyddion a chyfeirbwyntiau.

4. Gwerth strategol

- Rydym yn hoffi cynigion gwyro sy'n darparu gwelliannau yn y cysylltiadau gyda rhannau eraill o'r rhwydwaith hawliau tramwy neu i ardal neu ardaloedd mynediad cyhoeddus.
- Nid ydym yn hoffi gwiriadau sy'n gwneud y gwrthwyneb i hyn. Mae'n well gennym wiriadau sy'n cynnig gwelliannau i'r rhwydwaith na'r rhai sydd ddim. Dylai cynigion pob gwiriad gwrdd â'r safonau sy'n berthnasol i briffyrdd o'r math hynny.
- Rydym yn hoffi gwiriadau sydd yn cynnig hawliau ychwanegol i ddefnyddwyr di-gerbyd. Os yw llwybr troed newydd yn addas ac yn briodol i'w ddefnyddio gan farchogion ceffylau a beicwyr byddwn yn croesawu dynodi hawliau ychwanegol i'r defnyddwyr hynny. Cadwn yr hawl i beidio prosesu cais i wro os yw'r hawliau tramwy ar dir sy'n berchen i'r perchennog tir ddim yn addas i'w defnyddio o ganlyniad i unrhyw ddiffyg ar ran perchennog neu ddeilydd y tir. Ni fyddwn yn llunio nac yn cadarnhau gorchymyn os nad ydym yn ystyried ei fod yn gyfleus i wneud hynny. Wrth benderfynu os yw'n gyfleus ai peidio gallwn ystyried cost hyrwyddo gorchymyn unwaith y bydd wedi ei lunio a'r manteision arfaethedig a roddir i'r cyhoedd gan y llwybr newydd.